Dyddiadau ffenestri datgan diddordeb Chwefror 2024

Cynllun	**Crynodeb**	**Dyddiadau ffenestri**
Cynllun Cynllunio Creu Coetir	Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd. Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed a ffensio (Grant Creu Coetir). Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir	Ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar gyllideb)
Grantiau Bach – Creu Coetir	Mae Grantiau Bach – Creu Coetir yn gynllun ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir eraill i'w hannog i blannu ardaloedd bach o goed ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol, neu sydd o werth amgylcheddol isel yng Nghymru. Mae arian ar gael i blannu coed cysgodol, coed ar hyd ymyl cyrsiau dŵr, ac yng nghorneli caeau neu mewn caeau bach, i ddarparu cysgod ar gyfer da byw, bioamrywiaeth a thanwydd coed. Mae Grantiau Bach – Creu Coetir hefyd yn cynnig 12 mlynedd o daliadau Premiwm a Chynnal a Chadw mewn perthynas â'r ardaloedd newydd a blannir. Mae ffensio i gadw da byw a cheirw allan, a gatiau i ganiatáu mynediad i'r cyhoedd hefyd wedi'u cynnwys. Mae'r broses ymgeisio'n fodd o sicrhau bod y cynigion plannu'n cwrdd â gofynion Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) sy'n golygu nad oes angen i gynllun creu coetir gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae cyllid ar gael i blannu ardaloedd sydd rhwng 0.1ha ac 1.99ha. Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir	4ydd Mawrth 2024 – 19eg Ebrill 2024
Grantiau Bach - Effeithlonrwydd	Mae'r cynllun Grantiau Bach – Effeithlonrwydd yn gynllun cyfalaf i helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol eu busnesau fferm. Y nodau yw buddsoddi mwy yn y fferm, gwella ei pherfformiad technegol, cynhyrchu yn fwy effeithiol ar y fferm, defnyddio adnoddau ar y fferm yn fwy effeithiol, a gwneud defnydd gwell o dechnoleg i wella penderfyniadau rheoli. Mae'r cynllun Grantiau Bach – Effeithlonrwydd yn cefnogi buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a thechnoleg sydd wedi'u nodi ymlaen llaw fel rhai sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i fusnes eich fferm. Mae'r holl eitemau cyfalaf wedi'u nodi, ynghyd â chostau pob eitem. Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-effeithlonrwydd	6ed Mawrth 2024 – 16eg Ebrill 2024

Grant Creu Coetir	Mae'r Grant Creu Coetir yn darparu cymorth ariannol i greu ardaloedd coetir mwy o faint neu ardaloedd bach nad ydynt yn gymwys ar gyfer Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir. Yr ardal leiaf y gellir gwneud cais ar ei chyfer yw 0.25ha. Does dim ardal fwyaf. Mae'r cynllun yn darparu cyllid ar gyfer plannu coed a gosod ffensys a gatiau. Mae hefyd yn cynnig 12 mlynedd o daliadau premiwm a chynnal a chadw (i wneud iawn am golli incwm amaethyddol). Nid yw plannu coed fel rhan o'r cynllun yn golygu colli taliadau na chymhwysedd y tir ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/grant-creu-coetir	4ydd Mawrth 2024 – 22ain Tachwedd 2024